Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
North Wales Together

*Gwasanaethau Ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

# Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Strategaeth Technoleg Anableddau Dysgu

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Mae’r strategaeth hon yn cydnabod fod technoleg yn dod yn fwyfwy allweddol ar gyfer galluogi cynlluniau a darpariaeth gwasanaeth effeithiol a chlyfar ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth a’u teuluoedd a’u gofalwyr.

Fodd bynnag, nid ydym yn gwneud y mwyaf o dechnoleg ar hyn o bryd i elwa’n llawn o’r effaith y gallwn ei chael a’r canlyniadau y gallwn eu cyflawni. Mae technoleg yn aml yn ychwanegiad ac yn ôl-ystyriaeth, ac felly nid yw’n cael ei sefydlu’n llawn o fewn y pecyn gwaith cymorth yr ydym yn ei ddefnyddio.

Mae’r strategaeth hon yn diffinio ein gweledigaeth i ddatblygu ein dealltwriaeth o’r dechnoleg sydd ar gael a’i ddefnyddio i gyfoethogi a gwella’r cynnig gwasanaeth.

Mae’n cydnabod fod diwylliant a sgiliau’n allweddol, ac yn disgrifio sut y byddwn yn gweithio gyda’n staff a chymunedau i gynyddu mynediad at fand eang a dyfeisiau. Yn bwysicach fyth, mae’n cydnabod fod arnom ni angen rhoi ystod o ddulliau a chefnogaeth ar waith i helpu defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a’u gofalwyr, a’n staff i fagu hyder yn defnyddio’r we a gwneud y mwyaf o’r buddion sydd ynghlwm â thechnoleg.

CYFLWYNIAD A CHEFNDIR ..... 4
EGWYDDORION Y CYNLLUN A'R STRATEGAETH ..... 7
Y FFRAMWAITH CENEDLAETHOL A CHYFEIRIAD TEITHIO HIRDYMOR ..... 9
MYNEDIAD A MABWYSIADU ..... 11
DIOGELWCH A SAFONAU TECHNOLEG ..... 14
CYNLLUN GWEITHREDU ..... 17

## CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae’r strategaeth hon yn anelu at fodloni anghenion newidiol pobl ag anableddau ar draws Gogledd Cymru, eu teuluoedd a’u gofalwyr.

Mae’n cydnabod bod modd defnyddio technoleg mewn ystod eang o ffyrdd gwahanol i helpu pobl i fyw’n fwy annibynnol a chyflawni canlyniadau personol gwell.

Fodd bynnag, nid yw un dull yn addas i bawb, ac er fod y strategaeth hon wedi’i hanelu at wasanaethau anableddau dysgu ar draws y chwe sir yng Ngogledd Cymru, bydd amrywiadau a nodweddion rhanbarthol yn siapio’r ffordd y bydd yn cael ei datblygu a’i gweithredu’n lleol.

Mae sicrhau cydraddoldeb i siaradwyr Cymraeg yn un o amcanion allweddol y strategaeth, a byddwn yn ymdrechu i sicrhau nad oes unrhyw un yn wynebu allgau ychwanegol ar sail iaith.

Yn yr un modd, byddwn yn cefnogi pobl i gael mynediad at ddyfeisiau a defnyddio’r we mewn modd rhagweithiol lle bynnag y bo modd.

Mae’r profiad o Covid-19 wedi ein gorfodi i ddefnyddio mwy ar dechnoleg ac, i nifer o bobl, mae wedi newid y ffordd rydym yn meddwl am beth sydd ei angen a beth sy’n bosibl.  Dylem ddefnyddio’r gwersi a ddysgwyd yn 2020 i barhau i siapio’r ffordd rydym yn defnyddio technoleg, gan barhau i gefnogi pobl i gyflawni’r canlyniadau gorau posibl i’r dyfodol.

## Rhagarweiniad

Cynhyrchir Strategaeth Technoleg Anableddau Dysgu Gogledd Cymru fel rhan o brosiect Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau Di-dor i Bobl gydag Anableddau Dysgu, sef un o bedwar Prosiect Gweddnewid yng Ngogledd Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru 2018-2021.

Mae'n ymwneud â Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru 2018-23, ac yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer sut y gellir defnyddio technoleg yn fwy effeithiol ar gyfer pobl ag anableddau ar draws Gogledd Cymru. Er ei fod yn strategaeth dechnegol, ei phwrpas yw ystyried sut y gellir defnyddio technoleg i gefnogi pobl i gyflawni canlyniadau gwell yn eu bywydau.

Dyma grynodeb fanwl o'n strategaeth, a gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn y strategaeth lawn (dolen?).

## Cyd-destun

Yn 2016-17, roedd oddeutu **810** blant ag anhawster dysgu difrifol neu ddwys a **2,900** o oedolion ag anableddau dysgu yn derbyn gwasanaethau yng Ngogledd Cymru.

Mae nifer y bobl ag anableddau dysgu sydd angen cymorth yng Ngogledd Cymru yn cynyddu ac mae pobl ag anableddau dysgu'n byw yn hirach. Disgwylir y bydd y tueddiadau hyn yn parhau.

Mae hyn yn cynyddu'r galw ar y gwasanaeth anableddau dysgu, ac os bydd toriadau pellach yn cael eu gwneud i'r sector cyhoeddus yn y dyfodol, byddai'n anodd cefnogi'r galw.

### Cyfleoedd Technegol

Mae gan dechnoleg y potensial i gefnogi pobl ag anableddau dysgu mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol:

- Gall tai wedi'u haddasu ganiatáu i bobl fyw'n fwy annibynnol yn hirach; a chynnig sicrwydd i deuluoedd fod cefnogaeth ar gael os oes angen cymorth neu mewn achos o argyfwng;
- Gellir defnyddio synwyryddion ac apiau i olrhain a hyrwyddo ffyrdd iach ac egnïol o fyw;
- Gall y cyfryngau cymdeithasol ac offer cyfathrebu megis Zoom, helpu pobl i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau, a lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd;
- Mewn amgylchedd addysg, gellir defnyddio technoleg i helpu dysgwyr i gymryd rhan mewn dosbarthiadau gyda'u ffrindiau, gyda chefnogaeth mwy cyfrinachol.

## Amrywiadau Rhanbarthol

Mae'r strategaeth yn diffinio map ffordd ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu ar draws Gogledd Cymru gyfan; ond cydnabyddir na fydd un dull yn addas i bawb, a bydd nodweddion lleol yn siapio'r dull ym mhob awdurdod lleol.

### Iaith

Nid oes ffigurau ar gael i ddangos nifer y siaradwyr Cymraeg ag anableddau dysgu ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, mae Dangosydd Siaradwyr Cymraeg Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos fod y canran o oedolion a oedd yn siarad Cymraeg yn 2018-19 yn amrywio o 66% yng Ngwynedd, i 11% yn Sir y Fflint.

Felly er y bydd angen defnyddio dulliau gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol, mae ymgynghoriad a gwblhawyd yn ddiweddar â defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a gofalwyr a darparwyr gwasanaeth ar y strategaeth hon wedi cyfleu neges glir na ddylai'r Gymraeg gyflwyno rhwystr ychwanegol a pheri risg o allgau pellach.

Fodd bynnag, mae'n rhaid bod yn ymarferol, a derbynnir na fydd pob math o dechnoleg ar gael yn ddwyieithog i gefnogi siaradwyr Cymraeg. Ni awgrymir y dylid atal siaradwyr Saesneg rhag defnyddio offer a allai fod yn ddefnyddiol iddynt oherwydd y diffyg fersiwn Gymraeg. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio i darparu'r un gefnogaeth a gallu lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Mae'n rhaid ystyried opsiynau amgen sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu gefnogaeth cyfieithu wrth ddatblygu dulliau a thechnolegau newydd. Yn ystod bob cam, mae'n rhaid i ni fod yn glir pa gamau sydd wedi cael eu cymryd, neu sydd ar y gweill, i gynnig yr un cyfleoedd a chanlyniadau i siaradwyr Cymraeg â siaradwyr Saesneg.

Rydym yn cydnabod na fydd hyn bob amser yn bosibl, ond mae'r ymrwymiad i gydraddoldeb ac archwilio opsiynau a dulliau amgen yn allweddol i'r strategaeth hon.


## Cysylltedd

Yn syml, un o'r penderfynyddion allweddol o ran llwyddiant y strategaeth dechnoleg hon fydd y graddau y mae ein budd-ddeiliaid yn gallu cael mynediad at dechnoleg a chael profiad cadarnhaol wrth wneud hynny.

Byddwn yn cefnogi hyn yn rhannol drwy helpu defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a'n staff i ddatblygu'r hyder a'r sgiliau i ddefnyddio technoleg. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn allweddol os yw budd-ddeiliaid o ddifri am fabwysiadu technoleg yn eu bywydau.

Yn yr un modd, byddwn yn archwilio'r cyfleoedd i gael mynediad at ddyfeisiau y gallwn eu dosbarthu ymysg ein defnyddwyr gwasanaeth i helpu pobl i ddefnyddio'r we a chael mynediad at geisiadau.

Fodd bynnag, nododd Ofcom yn 2019 nad oedd gan **3%** o'r holl eiddo yng Nghymru (busnesau a phreswylwyr) gysylltiad band eang derbyniol, a dim ond **12%** o'r holl eiddo preswyl oedd â chysylltiad band eang ffibr.




Rydym yn cydnabod y bydd mynediad at gysylltiad band eang sefydlog ac effeithiol yn cael effaith sylweddol ar brofiad y defnyddiwr ac, o ganlyniad, eu parodrwydd i ddefnyddio technoleg. Byddwn yn monitro mentrau a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac yn chwilio am gyfleoedd i gysylltu â chyflenwyr band eang i wella cysylltiadau i'n defnyddwyr mewn ardaloedd â chysylltiad gwael.

Ynghyd â'n hymrwymiad i'r Gymraeg, hyfforddiant a mabwysiadu, bydd helpu pobl i ddefnyddio'r we yn un o amcanion allweddol y strategaeth hon.

## Effaith Covid

Mae'r cyd-destun sydd wedi bod yn sail i ddatblygiad y strategaeth hon wedi newid yn sylweddol o ganlyniad i bandemig y coronafeirws.

Fe wnaeth y rheolau yn erbyn gweithgareddau a grwpiau cefnogi wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod clo, a oedd yn rhan allweddol o'r gwasanaethau anableddau dysgu, newid y gofynion a'r disgwyliadau dros nos.

Cafodd rhai rhagdybiaethau a 'rheolau' oedd yn bod o'r blaen eu gwaredu ar unwaith. Yn y bôn, roedd yn rhaid newid y diwylliant a'r ffordd o feddwl mewn perthynas â thechnoleg gan fod perygl i nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd deimlo'n unig.

Nid ydym yn awgrymu mai technoleg yw'r opsiwn gorau ym mhob sefyllfa.

Mae rhai enghreifftiau o bobl sydd wedi ymgysylltu â grwpiau a gweithgareddau ar-lein yn ystod y pandemig nad oeddent wedi dewis mynychu grwpiau wyneb yn wyneb yn y gorffennol. Mae'r gallu i ymgysylltu'n ddigidol wedi gweithio iddyn nhw. Mae mynediad digidol wedi gwaredu cyfyngiadau daearyddol ac wedi ei gwneud yn haws i bobl ymuno â gweithgareddau a datblygu cyfeillgarwch ar draws Gogledd Cymru, a thu hwnt.

Yn yr un modd, fodd bynnag, mae rhai pobl wedi cael trafferthion â'r we neu'n methu â chael mynediad at y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan mewn grwpiau a gweithgareddau'n ddigidol. Ar gyfer y bobl hyn, mae'r cyfnod clo wedi bod yn gyfnod unig ac ynysig iawn.

Mae'n rhaid i'n strategaeth a'n dull gydnabod ac ymateb i bob un o'r profiadau hyn. Mae'n rhaid i ni ddatblygu ac adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd wrth i ni orfod meddwl yn sydyn a'r profiad y mae 2020 wedi'i roi i ni. Ond mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod nad technoleg yw'r ateb i bawb ym mhob achos.

Dyma'r elfen allweddol yn y strategaeth hon a'r hyn y mae'n anelu ato.

## EGWYDDORION CYNLLUNIO'R STRATEGAETH

Er mai strategaeth dechnoleg ar gyfer y gwasanaeth Anableddau Dysgu yw hon, nid bwriad y strategaeth yw diffinio ar gyfer beth y dylid defnyddio technoleg, ac nid yw'n awgrymu y dylid defnyddio technoleg ym mhob achos.

Yn hytrach, y bwriad yw cydnabod fod technoleg yn cyflwyno cyfle i ail-feddwl am y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu i wneud bywyd yn haws neu'n well ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr, neu ddarparwyr gwasanaeth.

Nid technoleg yw'r ateb i bawb sydd angen cymorth ac ni ddylid ei ystyried fel ateb diofyn.

Yn y bôn, mae'r gwasanaeth hwn yn anelu at gefnogi pobl i fyw bywydau gwerthfawr, cyflawn ac annibynnol hyd eithaf eu gallu.  Fe ddylai technoleg fod yn un o'r opsiynau sydd ar gael yn y pecyn gwaith er mwyn canfod y ffordd orau i gefnogi pobl, ond, mewn achosion lle nad technoleg yw'r opsiwn gorau i gefnogi rhywun i gyflawni eu canlyniadau gorau, dylid bob amser dewis cefnogaeth amgen.

Pwrpas y strategaeth hon yw amlinellu map ffordd er mwyn integreiddio technoleg fel galluogwr allweddol hirdymor i ddarpariaeth a chynlluniau gwasanaeth i'r dyfodol.

# Egwyddorion Cynllunio Strategaeth

## Egwyddor 1:

Ni ddylid cyflwyno technoleg o ran ei hun. Fe ddylai fod yn amlwg pa broblem neu risg fydd defnyddio'r dechnoleg yn ei chefnogi neu ei rheoli wrth ei dewis.

## Egwyddor 2:

Ni ddylai technoleg fod yn ychwanegiad neu'n ôl-ystyriaeth mewn darpariaeth gwasanaeth. Dylai fod yn un o'r dewisiadau sydd ar gael yn y pecyn gwaith, ond nid yr unig un.

Bydd trafodaethau i nodi'r gefnogaeth gywir yn defnyddio dull yn seiliedig ar asedau, gan ddefnyddio sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' i fframio asesiadau unigol a theilwra cefnogaeth i anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn.

Ein hamcan fydd darparu'r gefnogaeth orau bosibl a gwneud y mwyaf o ganlyniadau i'r defnyddiwr gwasanaeth drwy wella ansawdd eu bywydau, cynnig rhagor o annibyniaeth iddynt a gwella canlyniadau iechyd.

## Egwyddor 3:

Nid yw un ateb yn addas i bawb.

Byddwn yn gwahaniaethu rhwng technoleg lefel isel, canolig ac uchel yn y ffordd yr ydym yn cynllunio a buddsoddi. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn cynnig lefel briodol o ystyriaeth yn ystod y cam cynllunio i'r ffordd y dylid gweithredu a chefnogi technoleg. Yn syml:

- Fe ddylai gweithiwr cefnogi fod yn gallu rheoli technoleg lefel isel, megis fideos coginio ar YouTube neu sgwrsio dros Zoom, fel rhan o fywyd bob dydd;

- O ran technoleg lefel ganolig, megis clustffonau Rhith-Wirionedd ar gyfer teithio annibynnol, neu nodweddion hygyrchedd Microsoft, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o gymorth i gynllunio sut a phryd i'w ddefnyddio i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer yr unigolyn;

- Mae technoleg lefel uchel yn cyfeirio at dechnoleg sefydledig mwy arbenigol, megis synwyryddion codymau, goleuadau clyfar neu synwyryddion drysau wedi'u gosod, mae'r rhain yn debygol o fod yn addas i bobl sydd angen cymorth mwy dwys ac mae'n rhaid i ddeiliaid cyllideb o fewn y gwasanaeth gytuno iddynt– neu'r teulu pan fo taliadau uniongyrchol ar waith.

## Egwyddor 4:

Mae technoleg yn newid drwy'r amser. Y tu hwnt i'r cynlluniau peilot cychwynnol sydd eisoes ar waith neu ar y gweill, ni fyddwn yn ceisio nodi technoleg arbennig i'w defnyddio o fewn y gwasanaeth. Yn hytrach, byddwn yn nodi map ffordd ac egwyddorion a fydd yn siapio'r ffordd o ddatblygu technoleg.

Drwy wneud hyn, byddwn yn ceisio diogelu ein dull i sicrhau nad yw penderfyniadau a wneir ar hyd y ffordd yn gwneud integreiddiad iechyd a gofal cymdeithasol yn anoddach yn hirdymor.

## Egwyddor 5:

Rydym yn cydnabod nad oes gan lawer o bobl fynediad digidol ac nad yw pawb yn hyderus yn defnyddio technoleg. Mae hyn yn berthnasol i'n staff yn ogystal â defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Rydym yn gwybod fod dulliau dysgu yn amrywio a bod pobl yn magu hyder mewn sawl ffordd wahanol. Byddwn yn datblygu ac yn peilota cefnogaeth mwy personol, gan ddefnyddio'r Fframwaith Sgiliau Digidol Hanfodol fel sylfaen i weithio gyda staff, defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a gofalwyr i gyd-gynhyrchu safonau lleol, a phersonol i'r gwasanaeth anableddau dysgu.

## Egwyddor 6:

Rydym yn ymrwymo i sefydlu fframwaith cadarn y bydd technoleg yn cael ei adolygu oddi mewn iddo a'i argymell ar gyfer ei ddefnyddio ar draws ein gwasanaethau.

Rydym yn cydnabod na allwn waredu'r risg yn llwyr o'r maes hwn ac na allwn fod yn gyfrifol am gamau a gweithredoedd unigol. Fodd bynnag, byddwn yn datblygu safonau ac yn rhoi systemau ar waith i gynnig cyngor a chymorth i leihau'r risg a chaniatáu i'n defnyddwyr gwasanaeth a staff elwa o'r cyfleodd sydd ynghlwm â thechnoleg.



## Y FFRAMWAITH CENEDLAETHOL A’R CYFEIRIAD TEITHIO HIRDYMOR

Yn y tymor byr–canolig, byddwn yn blaenoriaethu gwaith er mwyn rhoi fframwaith diogel o reolyddion a chefnogaeth ar waith a fydd yn sail i’r ffordd y caiff technoleg ei rheoli a’i sefydlu o fewn ein gwasanaethau.

Fodd bynnag, wrth i hyn ddatblygu, fe fydd yn cael ei reoli gan gyfeirio at amcanion rhanbarthol a chenedlaethol ehangach i sicrhau fod y ffordd y mae technoleg yn datblygu ar draws gwasanaethau anableddau dysgu yn cyd-fynd ag amcanion strategol hirdymor.

Mae’r rhaglen a ddisgrifir gan Lywodraeth Cymru ar draws nifer o ddeddfwriaethau a chynlluniau gweithredu digidol yn gyson ac yn glir: mae angen i bobl ar draws Cymru dderbyn cefnogaeth i gael mynediad at fand eang a dyfeisiau o ansawdd uchel a chefnogaeth i ddatblygu’r sgiliau a’r hyder sydd eu hangen arnynt i gael mynediad at wasanaethau’n ddigidol. Mae angen i ddefnyddwyr fod yn ganolog i gynllun y gwasanaethau i sicrhau eu bod yn reddfol, wedi’u cydgysylltu ac ar gael i bawb.

Mae’r egwyddorion hyn yn greiddiol i’r strategaeth hon.

## Y Fframwaith Cenedlaethol

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei wneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd lleol i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well. Mae cyfres o Adolygiadau Seneddol, papurau polisi a chamau gweithredu perthnasol yn atgyfnerthu ac yn adeiladu ar y gofyniad hwn.

Maent yn parhau i adeiladu ar y momentwm ar gyfer cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth ehangach. Gall technoleg chwarae rhan sylweddol o ran ymestyn y rhaglen honno ac mae'n rhaid i'r strategaeth hon gefnogi'r gallu hwnnw.

Er na fydd y cam hwn o'r cynllun gweithredu'n datblygu'r rhaglen hon yn benodol, mae'n rhaid i'r fframwaith rheoli a'r polisïau a gaiff eu rhoi ar waith fel rhan o'r gwaith hwn gael eu datblygu yn unol ag ysbryd yr amcan hirdymor hwnnw.

Caiff polisïau digidol Llywodraeth Cymru eu hategu gan y bwriad i gynyddu mynediad a hyder yn defnyddio technoleg.

Caiff gallu digidol ei sefydlu o fewn nodau strategol y sir a'i atgyfnerthu ar draws nifer o ddogfennau allweddol amrywiol.

Byddwn yn sicrhau fod barn a gofynion defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a gofalwyr a staff yn ganolog yn y ffordd yr ydym yn ystyried y fframwaith hwn ac yn sefydlu technoleg o fewn ein gwasanaethau. Byddwn yn defnyddio dau brif ddull i gyflawni hyn:

1. Drwy ymgynghoriadau a thrafodaethau parhaus gyda budd-ddeiliaid i sicrhau fod eu barn a'u lleisiau'n siapio'r penderfyniadau a wneir, a
2. Thrwy gyd-gynhyrchu ar draws ein cynllun gweithredu er mwyn defnyddio technoleg i wella pethau ar gyfer ein budd-ddeiliaid.

### Cyd-gynhyrchu

Mae **hanes Nick** yn enghraifft gynnar o sut y byddwn yn cydweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth, i'w cefnogi i gymryd rhan ac arwain ar gynllunio gwasanaethau wrth i ni symud ymlaen.

### Hanes Nick

Mae Nick yn rhan o Grŵp Safonau Gwasanaethau Wrecsam, grŵp a oedd yn ei fynychu'n wythnosol cyn y cyfnod clo. Ar ddechrau'r cyfnod clo nid oedd gan Nick fynediad at TG ac felly nid oedd yn gallu cymryd rhan yn y gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnal. Gydag arian Llywodraeth Cymru, darparwyd iPad i Nick ac roedd yn gallu ymuno o bell drwy Zoom.

Roedd eisiau cymryd rhan yn y grŵp e-ddysgu a meddyliodd am y cysyniad o "fod ar y trywydd iawn". Gall dysgwyr gamu ar y trên a chael trosolwg o'r meysydd sy'n allweddol ac yn hanfodol i gefnogi pobl ag anableddau dysgu, a galw mewn gorsafoedd ynghylch cyfathrebu, galluogi a chefnogaeth weithredol a risg sy'n canolbwyntio ar y unigolyn. Tynnodd lun o'r trên yma i esbonio ei syniadau ac rydym nawr yn cefnogi Nick i wireddu ei syniad a gwneud i'r trên symud drwy animeiddio.




Mae'r ffordd newydd hon o feddwl yn hanfodol ar gyfer y strategaeth hon. Nid yw'n ymwneud â'r dechnoleg, mae'n ymwneud â chydnabod ffyrdd y gall technoleg helpu:

- **Cyfathrebu'n gliriach**
- **Sicrhau fod gwybodaeth ar gael i ragor o bobl**
- **Annog pobl i gymryd rhan**

Ac yn y bôn, mae'n ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth yn siapio a datblygu cynllun a darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol.

## MYNEDIAD A MABWYSIADU

Mae ymgynghoriadau a gwblhawyd â staff, defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd a gofalwyr yn ystod y broses o gynhyrchu'r strategaeth wedi amlygu nifer o bryderon mewn perthynas â hygyrchedd a hyder yn defnyddio technoleg.

Er bod nifer o enghreifftiau cadarnhaol o bobl yn gwneud y mwyaf o dechnoleg yn ystod y cyfnod clo, i ryw raddau, roedd p'un a oedd unigolyn yn gallu defnyddio'r we neu beidio yn dibynnu ar sgiliau, hyder a pharodrwydd eu gofalwr neu ddarparwr cymorth.

Rydym yn cydnabod nad yw pawb yn teimlo'n hyderus yn ddigidol ac yn gwybod beth i'w wneud a sut i'w wneud o, ac un o brif amcanion y strategaeth hon yw helpu i ddatblygu'r sgiliau hynny i staff, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd a gofalwyr.

Byddwn yn gwneud hyn drwy weithio gyda budd-ddeiliaid i adolygu safonau Sgiliau Digidol Hanfodol i gyd-gytuno ar fframwaith lleol sy'n addas ar gyfer y gwasanaeth anableddau dysgu ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r fframweithiau hyn yn llywio datblygiad ein rhaglen gymorth a hyfforddiant, a gaiff ei theilwra'n arbennig i unigolion, gan gydnabod y gofynion a'r dulliau dysgu gwahanol sydd ganddyn nhw oll.

Bydd sgiliau digidol yn datblygu i fod yn ofyniad allweddol ar draws ein gwasanaethau, o ran disgwyliadau ein staff, ond hefyd yn y modd yr ydym yn comisiynu gwasanaethau yn y dyfodol.

## Mynediad a Mabwysiadu

Canfu'r arolwg diweddaraf o *ddefnydd o'r we a sgiliau digidol* yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019 bod:

- gan **87%** o aelwydydd ar draws Cymru fynediad at y we. Fodd bynnag, roedd aelwydydd mewn tai cymdeithasol yn llai tebygol o fedru cysylltu â'r we (**75%**).
- **89%** o oedolion yn defnyddio'r we. Fodd bynnag, roedd **98%** o'r bobl rhwng **16 a 49** oed yn defnyddio'r we. o'i gymharu â **49%** o'r bobl **75+.**

Er nad oes ffigurau penodol ar gael ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, roedd **79%** o bobl ag anabledd neu salwch cyfyngus hirdymor yn defnyddio'r we, o'i gymharu â **89%** o'r bobl heb gyflwr o'r fath.

Mae adroddiad cynnydd Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018 yn nodi,

> "Mae angen cadw i fyny â datblygiadau technegol, a chefnogi pobl i gael y budd mwyaf o'r cyfleoedd enfawr y maent yn eu cyflwyno. Er gwaethaf cynnydd sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf, mae gormod o bobl yn methu allan ar y cyfleoedd hyn o hyd. Mae'r rhai sy'n dal i fod wedi'u hallgau'n digidol mewn perygl o gael eu gadael ar ôl mewn cymdeithas, wrth i fwy a mwy o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig, fynd ar-lein."

Amlygodd arolwg ar-lein a gwblhawyd â staff, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr fel rhan o'r broses o gynhyrchu'r strategaeth hon sawl pwynt:

- Nid yw pawb yn gallu cael mynediad at yr we neu ddyfais;
- Roedd y farn ynghylch argaeledd cyngor a chymorth i gefnogi pobl i ddechrau defnyddio technoleg newydd yn gymysg;
- Dywedodd **70%** o'r gofalwyr a ymatebodd i'r arolwg y byddent yn croesawu cyngor ar ba dechnoleg sydd ar gael, gan nad ydynt yn gwybod yn aml iawn;
- Nododd staff fod arnynt angen rhagor o amser i gynnig cefnogaeth i bobl â thechnoleg *ar ben eu swydd bob dydd.* Nodwyd hefyd bod pobl yn aml yn cymryd yn ganiataol fod pawb yn ymwybodol o'r agweddau sylfaenol, ond efallai na fydd hyn yn wir i rai.

Mae'r pandemig byd-eang wedi newid y ffordd roedd pobl yn meddwl am dechnoleg ar draws y gwasanaeth.

Lle mae wedi cael ei ystyried yn bennaf fel arf i gefnogi a hyrwyddo byw'n annibynnol, daeth yn rhaff achub hanfodol ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu cymdeithasol.

Gwnaeth staff a theuluoedd a gofalwyr eu gorau i ymateb i'r her, ond nid oedd yr isadeiledd craidd yn llwyr mewn grym ym mis Mawrth 2020 i gefnogi hyn ac nid oedd pawb yn teimlo'n hyderus eu bod yn gwybod beth i'w wneud neu sut i'w wneud.

Gan ddysgu o'r profiad hwn, mae'n rhaid i ni barhau i adeiladu ar y naid enfawr y bu'n rhaid i ni ei chymryd yn sgil pandemig y coronafeirws. Byddwn yn gwneud hyn drwy:

### Ddiffinio Sgiliau Digidol Hanfodol

Er mwyn darparu'r cymorth a'r hyfforddiant cywir i staff, teuluoedd a gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth, mae'n rhaid i ni ddeall y fframwaith allweddol o sgiliau a fydd yn cefnogi pawb i ddefnyddio'r we yn ddiogel ac yn effeithiol. Byddwn yn gweithio gyda budd-ddeiliaid i adolygu safonau Sgiliau Digidol Hanfodol y Llywodraeth a chyd-gytuno ar fframwaith lleol sy'n addas ar gyfer y gwasanaeth anableddau dysgu ar draws Gogledd Cymru. Gallai hyn arwain at ddiffiniad tri safon sylfaenol ond ar wahân ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a gofalwyr a staff ar draws y pum prif faes o ran sgiliau sylfaenol:

- Cyfathrebu
- Trin gwybodaeth a chynnwys
- Dwyn ymlaen
- Datrys problemau
- Bod yn ddiogel ac yn gyfreithlon ar-lein

### Datblygu a Darparu Hyfforddiant a Chefnogaeth

Byddwn yn gweithio ar y cyd â Chanolfan Gydweithredol Cymru, y Rhwydwaith Gefnogwyr Digidol a darparwyr hyfforddiant a TG trydydd sector lleol eraill ar draws Gogledd Cymru i ddatblygu hyfforddiant personol

ac ymatebol ar gyfer ein staff, teuluoedd a gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

Bydd y ffocws o ran hyfforddiant yn cael ei siapio gan y fframwaith Sgiliau Digidol Hanfodol lleol gan y bydd hyn yn caniatáu i fuddsoddiadau a hyfforddiant gael eu blaenoriaethu a'u targedu yn fwy effeithiol.


Fodd bynnag, ni fydd un dull yn addas i bawb, byddwn yn ceisio datblygu fframwaith hyfforddiant a chymorth hyblyg y gellir ei bersonoli sy'n ymateb i ddulliau dysgu dewisol unigolion.

Bydd hyn yn cael ei gomisiynu yn Gymraeg a Saesneg i sicrhau nad oes unrhyw un yn wynebu allgau neu rwystrau ychwanegol i gefnogaeth ar sail iaith.

Byddwn yn gwrando ar ein budd-ddeiliaid ac yn ceisio archwilio ffyrdd newydd ac arloesol i gefnogi pobl i ddangos diddordeb mewn technoleg. Techneg bwysig o ran hyn fydd nodi'r bachyn cywir i ennyn eu diddordeb a'u hannog i ymgysylltu. Mae'r dull Taflunio Symudol yn Sir Fôn yn esiampl gwych o sut y gellir cyflawni hyn.

Byddwn yn gweithio ar y cyd ag ysgolion anableddau dysgu arbenigol a chydweithwyr addysg bellach i sicrhau fod cynllunio o ran dysgu wedi ei gydgysylltu ac yn rhan o gynllun cefnogaeth yr unigolyn. Bydd hyn yn anelu at sicrhau fod yr holl offer sydd ar gael i helpu'r defnyddiwr gwasanaeth i gael y profiad gorau posibl yn yr ysgol neu goleg wedi'u nodi a'u gosod i'w cefnogi nhw.





## Offer Taflunio Symudol - Tyddyn Mon, Anglesey

Mae'r offer taflunio symudol (OmiVista Mobi+) yn defnyddio gemau a weithredir gan symudiad, cerddoriaeth a gweithgareddau cymdeithasol i gynyddu rhyngweithio cymdeithasol, gweithgarwch corfforol a lles pobl o bob oedran.

Mae'n cynnwys dros 200 o wahanol apiau ar draws ystod o weithgareddau artistig ac egnïol yn seiliedig ar wybodaeth, sydd ar gael i bobl o bob gallu. Defnyddiwyd y system yn eang yn ystod y cyfnod clo gyda phobl a gaiff eu cefnogi gan yr elusen, ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.

Dengys hyn, pan mae pobl yn gallu cydnabod y buddion sylfaenol sydd ynghlwm â defnyddio technoleg – p'un a yw hynny'n ymwneud â hwyl, ymlacio, gallu treulio amser gyda ffrind – mae modd osgoi'r mater diwylliannol o ran ennill calonnau a meddyliau. Er fod nifer o ganlyniadau cadarnhaol ynghlwm â'r offer taflunio – mae'r canlyniadau gwybyddol, corfforol ac o ran lles corfforol yn cael eu cyflawni heb i'r defnyddiwr gwasanaeth ddeall yn aml iawn. Nid yw'r rhain yn 'waith' – a bydd canfod y bachyn i ennyn diddordeb ac ymgysylltu â phobl sy'n amharod i ystyried technoleg yn allweddol i'w hannog i ddechrau defnyddio technoleg.

## Annog Pobl i Ddefnyddio'r We

Byddwn yn archwilio ffynonellau cyllid posibl i'n helpu i brynu a dosbarthu dyfeisiau i bobl ar draws ein gwasanaethau sydd wedi'u hallgau'n ddigidol; neu sydd angen technoleg newydd i'w helpu i fynd ati'n fwy gweithredol i ymgysylltu â ni.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r gymuned fusnes a'r trydydd sector yn ôl yr angen i gynyddu ein cysylltiadau ac archwilio ffyrdd i gynyddu mynediad at y we ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

## Cefnogi Staff a Gofalwyr

Rydym yn cydnabod nad oeddem yn cymryd sgiliau technegol i ystyriaeth wrth gyflogi nifer o staff ar draws ein gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gydnabod bellach fod sgiliau digidol yn dod yn fwyfwy allweddol ar draws ein timau.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn adolygu canllawiau comisiynu'r gwasanaeth i sicrhau fod darparwyr yn derbyn eglurhad clir o'r disgwyliad o ran cefnogi defnyddwyr gwasanaeth i gael mynediad at dechnoleg a'i defnyddio i wella eu hannibyniaeth a'u bywyd cymdeithasol o fewn eu bywyd bob dydd. I gefnogi hyn, bydd dangosyddion gwerthuso a mesur yn cael eu cynnwys mewn contractau i fonitro'r cynnydd. Bydd yn rhaid i ddulliau gweithredu ar gyfer y newidiadau hyn fod yn ymarferol, fodd bynnag, dylid caniatáu ar gyfer hyfforddiant a datblygu ar draws darparwyr i'w galluogi i ymateb yn effeithiol.

Credir bod pob un o'r camau hyn yn hanfodol i ddechrau sefydlu technoleg yn y ffordd yr ydym yn cynllunio a darparu ein gwasanaethau.

## DIOGELWCH A SAFONAU TECHNEGOL

Bydd gwneud y mwyaf o'r effaith mae technoleg yn gallu ei chael o fewn y gwasanaeth anableddau dysgu yn ymofyn cydbwysedd gofalus o ystyriaethau technegol a dynol.

Os yw technoleg am gael ei sefydlu o fewn y gwasanaeth, bydd yn rhaid rheoli hyn i sicrhau fod y dull a ddefnyddir ar draws pob defnyddiwr gwasanaeth ac mewn lleoliadau gwasanaeth yn gydlynol, cyson a bod modd eu cyfuno i ddarparu gwasanaethau effeithiol i'r dyfodol.

I ddechrau, byddwn yn canolbwyntio ar greu capasiti a sgiliau i reoli darpariaeth y strategaeth hon a fframwaith clir a fydd yn sail iddi.

Byddwn yn cydweithio gyda thimau TGCh allweddol ar draws y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru i sicrhau fod ein strategaeth a'n dull yn cyd-fynd â strategaethau ehangach; yn darparu adnoddau a chyngor i gefnogi staff i sefydlu technoleg yn y ffordd maent yn gweithio; a chreu fframwaith o  wiriadau ansawdd a diogelwch i sicrhau ein bod yn argymell technoleg o ansawdd uchel, gyda rheolaethau a mesurau diogelwch priodol ar waith i sicrhau fod defnyddwyr a data yn ddiogel ar-lein; cyn belled ag y bo modd.

# DIOGELWCH A SAFONAU TECHNEGOL

Yn y bôn, mae'r gwasanaeth anableddau dysgu yn ymwneud â phobl a, fel mae prif egwyddorion y strategaeth yn ei nodi, ni ddylid datblygu cynllun mewn perthynas â thechnoleg heb ddealltwriaeth glir o'r gwerth ychwanegol a'r gwahaniaeth i fywydau pobl.

Yn hanesyddol, ystyrir bod technoleg ar y cyfan wedi bod yn rhyw fath o ôl-ystyriaeth, neu'n ychwanegiad y gall y defnyddiwr gwasanaeth elwa ohono. Rheolwyd hyn ar lefel defnyddiwr gwasanaeth unigol a darparwr gwasanaeth, gydag ychydig o gymorth neu gefnogaeth ar waith.

Heb gydlynu a chynllunio ar lefel gwasanaeth, a heb ddealltwriaeth glir o sut y gall technoleg gynnig ategiad a chyfle i gydweithio, mae'n annhebygol y bydd y broses o integreiddio gwasanaethau iechyd a diogelwch, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn datblygu y tu hwnt i gyfarfodydd a thrafodaethau ar y cyd.

Er mwyn sicrhau bod ein strategaeth wedi'i thanategu gan fframwaith technegol wedi'i ddiffinio'n glir a fydd yn caniatáu i ni ddatblygu map ffordd esblygol, byddwn yn:

## Creu'r gallu a recriwtio'r sgiliau i reoli gweithrediad y strategaeth hon

Os nad oes unrhyw un yn atebol yn uniongyrchol i arwain gweithrediad y strategaeth hon, mae'n annhebyg o fynd yn ei flaen. Rydym yn cydnabod y bydd angen sgiliau a phrofiadau gwahanol ar draws y gwasanaethau anableddau dysgu os yw'r strategaeth yn bwriadu galluogi'r broses o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn unol â hynny, byddwn yn ceisio cyllid ar gyfer swydd debyg i Bensaer i arwain ar hyn.

## Sefydlu llyfrgell o dechnolegau ac apiau wedi'u cymeradwyo

Byddwn yn creu adnodd sydd ar gael i staff, teuluoedd a gofalwyr i godi ymwybyddiaeth am yr ystod lawn o dechnoleg sydd ar gael.

Bydd y llyfrgell yn argymell technoleg o ran y cyfraniad y gallai ei wneud at ddatrys problem neu gyflawni canlyniad, fel y dengys yn y tabl isod.

Gan fod technoleg yn newid yn dragwyddol, bydd y llyfrgell yn adnodd esblygol a gaiff ei ddiweddaru yn rheolaidd.

Bydd yn gweithio ochr yn ochr â'r dull yn seiliedig ar asedau y bydd gweithwyr cefnogi yn ei ddefnyddio i nodi anghenion cymorth mewn perthynas â chynhwysiant digidol unigolion drwy sgyrsiau 'beth sy'n bwysig'.

| Examples Trigger | Tech Response | Outcome/Evaluation |
|---|---|---|
| Poor diet | Meal planning, diet tracking | Weight, balance of diet |
| Lack of exercise | Fitbits, personal plans | Weight, blood pressure, level of activity |
| Taking medication | Calendars & automated reminders | Consistency, health outcomes |
| Feeling lonely | Social apps, dating apps, local calendar of activities | Self-evaluation of mental health, level of activity |
| Wanting independence | GPS trackers, Virtual Reality travel training | Self-evaluation, peace of mind of family and carers |

## Gweithio'n rhagweithiol i gynnig mynediad at dechnolegau iaith Gymraeg

Derbynnir na fydd pob math o dechnoleg ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid bod yn ymarferol, felly derbynnir na ddylai defnyddwyr gwasanaeth eraill fethu allan ar ddefnyddio'r technolegau defnyddiol sydd ar gael.

Fodd bynnag, byddwn yn ceisio technolegau drwy gyfrwng y Gymraeg lle bynnag y bo modd ac yn gweithio mewn modd rhagweithiol â chyflenwyr i gynnig atebion dwyieithog. Lle nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn archwilio technolegau neu ddulliau cyfathrebu eraill i sicrhau nad yw ein defnyddwyr gwasanaeth yn wynebu rhwystrau neu allgau ychwanegol ar sail iaith. Bydd darparu cydraddoldeb o ran profiad i siaradwyr Cymraeg yn egwyddor craidd o fewn y cynllun a'r dull.

## Ymchwilio a darparu mynediad i dechnolegau a adeiladwyd yn benodol ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu

Roedd barn pobl ynghylch technolegau wedi'u dylunio'n arbennig ar gyfer pobl ag anableddau yn un o'r problemau mwyaf dadleuol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, drwy'r arolygon yn ogystal â thrafodaethau â darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

Gan fod y farn yn gymysg, wrth i ni ddatblygu ein llyfrgell o apiau, byddwn yn ceisio profi ac argymell y technolegau sydd wedi'u dylunio a'u creu yn arbennig ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn ogystal ag apiau arferol. Bydd trafodaethau ynghylch y manteision a'r anfanteision sydd ynghlwm â phob un yn cael eu trafod â'r defnyddiwr gwasanaeth a'u gofalwr wrth benderfynu ar yr opsiwn gorau i gefnogi eu hanghenion.

## Cydweithredu â thimau TGCh allweddol ar draws y sector cyhoeddus

Byddwn yn cydweithio gyda Phenaethiaid TGCh o wasanaethau cyhoeddus allweddol ar draws Gogledd Cymru i sicrhau fod ein strategaethau wedi'u halinio (er enghraifft, mewn perthynas â thechnolegau neu safonau data i'r dyfodol gan eu bod yn berthnasol i systemau etifeddiaeth busnes). Wrth i weithrediad ein map ffordd ddatblygu o'r cynlluniau peilot gwreiddiol, byddwn yn gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth fel sy'n briodol er mwyn:

- ❖ osgoi dyblygiad a dysgu gwersi o waith sy'n cael ei gwblhau gan wasanaethau eraill;
- ❖ rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwersi a ddysgwyd a chynllunio'r camau nesaf i lywio cynlluniau'r gwasanaeth mewn gwasanaethau eraill sydd hefyd o bosibl yn gobeithio gweithio tuag at sefydlu technoleg o fewn y ddarpariaeth gwasanaeth.

## Creu fframwaith wiriadau ansawdd a diogelwch ar gyfer technolegau a argymhellir

Fe wnaeth ymgynghoriad a gwblhawyd â thimau TGCh gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y broses o baratoi'r strategaeth nodi nad oedd y gwaith wedi datblygu'n sylweddol i sefydlu fframwaith safonau technegol ar gyfer gwasanaeth rheng flaen yn defnyddio technoleg.

Byddwn yn gweithio i greu fframwaith a fydd yn sail i'r dechnoleg yr ydym yn ei defnyddio a'i hargymell. Gan y bydd hyn yn cael ei ddatblygu'n rhyngweithiol, bydd dull yn seiliedig ar risgiau yn cael ei ddefnyddio i ddechrau rhoi'r polisïau a'r safonau ar waith a fydd yn cynnig sicrwydd ein bod:

- ❖ yn argymell technoleg o ansawdd uchel i'n staff a'n defnyddwyr gwasanaeth;
- ❖ yn gweithredu rheolaethau cryf mewn perthynas â data defnyddwyr gwasanaeth;
- ❖ yn gallu cefnogi a gweithredu integreiddiad gwasanaethau anableddau dysgu gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach yn unol â pholisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

I ddechrau, byddwn yn peilota'r defnydd o'r gwasanaeth ORCHA – Sefydliad Adolygu Apiau Gofal ac Iechyd i'n helpu i nodi apiau iechyd o ansawdd uchel i'w hychwanegu at ein llyfrgell.

Maent yn cynnig gwasanaeth adolygu a sicrhau ansawdd apiau iechyd ac yn gweithio gyda Rhaglen Ddigidol y GIG a nifer fawr o sefydliadau'r GIG ar draws y DU ar hyn o bryd.

### Yn y bôn,

bydd y fframwaith yr ydym yn ei ddatblygu, yn ogystal â safonau a rheolaethau technegol cadarn, yn cynnig sylfaen ar gyfer ystyried gwasanaethau integredig ac ar y cyd. Byddwn yn cydweithio gyda gwasanaethau eraill ar draws Gogledd Cymru i ddatblygu a gweithredu ein dull. Wrth i'n map ffordd ddatblygu, bydd yn cael ei siapio gan wersi a ddysgwyd, cyllid, galw a chyfle.

Ein blaenoriaeth gyntaf yw sicrhau fod gennym fframwaith cryf ar waith i nodi technoleg o ansawdd uchel i gefnogi ein darparwyr gwasanaeth i fyw bywydau iach a llwyddiannus. Er nad yw ein huchelgeisiau hirdymor yn hysbys nac wedi'u diffinio ar hyn o bryd, byddwn yn sicrhau fod y fframwaith technegol sy'n diffinio ein gwasanaethau yn addas i'r dyfodol, cyn belled ag y bo modd. Bydd hyn yn sicrhau nad ydym, drwy esgeulustod, yn gwneud uchelgeisiau'r dyfodol i ddatblygu rhaglen o wasanaethau iechyd a gofal

cymdeithasol ar y cyd yn fwy cymhleth gyda’r penderfyniadau a wnawn ar hyd y ffordd.



## CYNLLUN GWEITHREDU

Bydd y camau gweithredu isod yn dechrau sefydlu technoleg yn y ffordd y caiff gwasanaethau anabledd dysgu eu cynllunio a'u darparu. Maent yn canolbwyntio ar greu sail gadarn; gyda pholisïau a chanllawiau clir ar waith; a chynlluniau i ddatblygu sgiliau a hyder ar draws timau staff.

Bydd camau gweithredu'n cael eu datblygu yn gynllun cyflenwi gweithredol yn eistedd o dan y strategaeth hon, lle bydd cyfrifoldebau, amserlenni a thargedau'n cael eu diffinio.

| A | Cam 1 | | |
|---|---|---|---|
| | **Gofyniad** | **Camau Gweithredu** | **Canlyniad** |
| 1. | Sicrwydd fod gan gynlluniau peilot presennol amcanion wedi eu nodi'n glir a bwriadau o ran canlyniadau. | Adolygu cynlluniau peilot gweithredol ac wedi eu cynllunio a chofnodi amcanion a chanlyniadau gan ddefnyddio'r fframwaith Sbardun – Ymateb- Canlyniad. | Mae Gwerthusiad gweithgarwch a gynlluniwyd yn ganolog er mwyn galluogi adolygiad parhaus o ganlyniadau ar draws gwasanaethau. |
| 2. | Profi a gwerthuso pob lefel o dechnoleg i hysbysu penderfyniadau cynllunio a buddsoddi yn y dyfodol. | Sicrhau fod cynlluniau peilot technoleg gweithredol ac wedi ei gynllunio yn cynnwys technoleg lefel **Isel, Canolig ac Uchel.** | Cesglir data cadarn er mwyn galluogi cymharu canlyniadau ar draws pob lefel o fuddsoddiad. |
| 3. | Eglurder i staff ynghylch technoleg sydd ar gael ac y gellir eu defnyddio i gefnogi cynllunio. | Creu llyfrgell sylfaenol o apiau a thechnoleg ar gyfer argymhellion / defnydd gan ddarparwyr gwasanaeth. | Datblygu 'llyfrgell' i roi hyder i staff ynghylch y penderfyniadau a'r argymhellion maent yn eu gwneud ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth |
| 4. | Data ac adborth o'r cynlluniau peilot cychwynnol i hysbysu cynllunio a phenderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol. | Casglu data o gynlluniau peilot ac adborth gan fudd-ddeiliaid. | Defnyddir tystiolaeth empirig a lleisiau budd-ddeiliaid i siapio penderfyniadau yn y dyfodol. |

| B | Mynediad, Hyfforddiant a Mabwysiadu | | |
|---|---|---|---|
| | **Gofyniad** | **Camau Gweithredu** | **Canlyniad** |
| 1. | Mynediad ehangach i ddyfeisiau a band eang ar gyfer budd-ddeiliaid er mwyn lleihau allgau ac ynysu. | Archwilio cyllid a phartneriaethau sydd ar gael i gefnogi darpariaeth a chyflwyno dyfeisiau a chysylltiadau i staff, defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd a gofalwyr. | Cynllun ar waith i gaffael a chyflwyno. Mesurau ar waith i olrhain niferoedd ac effaith. |
| 2. | Dealltwriaeth o Sgiliau Hanfodol craidd rydym yn bwriadu eu hyrwyddo a chefnogi staff, defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd a gofalwyr. | Adolygu Fframwaith Sgiliau Digidol Hanfodol y DU a diffinio safonau lleol, penodol i'r gwasanaeth. | Disgrifiad clir o sgiliau wedi eu targedu a ddiffiniwyd i lunio cynllun a darpariaeth hyfforddiant a chefnogaeth. |
| 3. | Dealltwriaeth o'r ehangder presennol o sgiliau digidol a hyder ar draws gofalwyr. | Cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi ar draws timau i nodi bylchau a galluogi cynllunio. | Casglu gwybodaeth fanwl i lywio'r broses o gynllunio a darparu hyfforddiant. |
| 4. | Mae cefnogaeth glir ar waith ar gyfer siaradwyr Cymraeg lle nad oes technoleg Gymraeg ar gael. | Diffinio ein strategaeth i gefnogi datblygiad dewisiadau technoleg yn y Gymraeg lle bo modd a chynlluniau i sicrhau fod dewisiadau eraill yn bodoli lle nad yw hyn ar gael. | Yn gallu monitro a rhoi tystiolaeth nad yw eithrio digidol yn cael ei waethygu ar sail dewis iaith. |

| | Gofyniad | Camau Gweithredu | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| 5. | Hyrwyddo arweinyddiaeth sy'n prynu i mewn i'r agenda digidol. | Darparu sesiynau gydag uwch arweinwyr i archwilio pryderon, rhwystrau neu ddiffyg diddordeb a thrafod gwerth ychwanegol posibl drwy wasanaethau digidol da. | Dealltwriaeth glir o bryderon a mesurau a ddiffiniwyd i olrhain ROI neu gynnydd i alluogi diweddariadau rheolaidd ac adrodd ar lefel uwch. |
| 6. | Hyder cynyddol yn defnyddio technoleg a mabwysiadu ar ôl yr hyfforddiant cychwynnol. | Datblygu a darparu cynlluniau hyfforddiant ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a gofalwyr a staff i gynyddu sgiliau a hyder digidol, yn gysylltiedig â'r safonau Sgiliau Digidol a nodir yng ngham (2) uchod. | Datblygu cynlluniau hyfforddiant gydag adnoddau a dulliau ar waith i gefnogi datblygiad sgiliau digidol. Tystiolaeth fod hyn wedi ei bersonoli ac yn defnyddio ystod o ddulliau a thechnegau. |

| C | Sefydlu Digidol o Fewn Cynllun y Gwasanaeth | | |
|---|---|---|---|
| | Gofyniad | Camau Gweithredu | Canlyniad |
| 1. | Cyfathrebu eithriadau o amgylch dyluniad a darpariaeth gwasanaeth digidol i staff. | Cynnal sesiynau ymwybyddiaeth ar gyfer staff i gyflwyno a thrafod y strategaeth hon a'r hyn y mae'n golygu'n ymarferol o ddydd i ddydd. | Cynnal sesiynau gyda staff mewn gwasanaethau ar draws Gogledd Cymru. |
| 2. | Cynllunio a chefnogaeth wedi'u cydgysylltu gydag ysgolion a cholegau addysg bellach. | Cysylltu â darparwyr addysg i drafod a nodi technoleg briodol i gefnogi annibyniaeth a dysgu a sut y caiff ei reoli mewn lleoliad ysgol / coleg. | Prosesau ar waith i ystyried ar y cyd anghenion a chanfod technoleg er mwyn sicrhau cymaint a phosibl o gefnogaeth a chanlyniadau ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion a cholegau. |
| 3. | Sicrhau bod y disgwyliadau digidol yn cael eu hymgorffori wrth gomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol. | Adolygu dulliau a chanllawiau comisiynu a diffinio disgwyliadau digidol realistig ac esblygol i'w hymgorffori. | Mae disgwyliadau digidol yn cael eu hymgorffori yn y fframwaith gomisiynu gyda mecanweithiau ar gyfer mesur a gwerthuso cynnydd yn barhaus. |
| 4. | Diffinio ein hamcanion a'n hymagwedd o ran taliadau hyblyg i gysylltu'n fwy uniongyrchol â strategaeth dechnegol. | Trafod a chytuno sut bydd taliadau hyblyg ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth i bersonoli cefnogaeth drwy ddefnyddio technoleg. | Datblygu canllawiau polisi. |
| 5. | Monitro cynnydd i sefydlu technoleg a digidol yn y ffordd y caiff y gwasanaeth ei gynllunio a'i ddarparu. | Sefydlu mecanwaith i fonitro gweithrediad y cynllun gweithredu a bwrw ymlaen â'r map ffordd. | Mecanweithiau monitro ac adrodd ar waith. |

| D | Diogelwch a Safonau Technegol | | |
|---|---|---|---|
| | **Gofyniad** | **Camau Gweithredu** | **Canlyniad** |
| 1. | Creu capasiti i ddeall a rheoli’r cyfeiriad teithio hirdymor er mwyn mewnoli technoleg o fewn cynllunio gwasanaeth. | Archwilio cyllid a recriwtio i swyddi Ymgynghorwyr tebyg i Bensaer a Thechnegol i gymell yr agenda digidol ar draws y gwasanaeth, gan gynnig cyfeiriad a chyngor. | Mae adnoddau yn eu lle gyda'r sgiliau a’r profiad cywir i gydlynu’r ffordd y mae technoleg yn datblygu ac yn cael ei sefydlu ar draws y gwasanaeth, gan weithio ar y cyd â Phenaethiaid TGCh ar draws y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. |
| 2. | Diffinio’r canllawiau ar gyfer y fframwaith technegol y bydd technoleg yn cael ei gyflwyno oddi mewn iddo ar draws y gwasanaeth. | Cytuno ar y polisïau craidd a’r fframweithiau sydd eu hangen a gosod amserlen ar gyfer eu datblygu a’u hadolygu’n barhaus. | Nodi a chytuno ar elfennau craidd. Cynllun ar waith i'w datblygu a’u hadolygu. |
| 3. | Cynnig ychydig o sicrwydd o amgylch apiau yn ymwneud ag iechyd a ddefnyddir gyda defnyddwyr gwasanaeth. | Cynnal cynllun peilot o'r gwasanaeth ORCHA fel sail i adnabod a dethol apiau yn ymwneud ag iechyd. | Llywodraethiad a safonau ar waith ar gyfer y dechnoleg yr argymhellir ei ddefnyddio. |
| 4. | Gweithredu safonau technegol sy'n dod i'r amlwg ar y lyfrgell o dechnoleg sy'n esblygu. | Wrth i safonau gael eu datblygu o amgylch e.e. diogelwch data, amgryptiad, dilysu defnyddiwr ac ati, adolygu technoleg sydd wedi ei chynnwys yn y llyfrgell waelodlin. | Gallu darparu rhywfaint o sicrwydd o amgylch diogelwch a pha mor briodol yw'r dechnoleg mae staff yn defnyddio ac yn argymell. |
| 5. | Diweddaru polisïau cysylltiedig i adlewyrchu effaith technoleg a symud i wasanaethau digidol. | Nodi polisïau perthnasol a chynhyrchu canllawiau i hysbysu’r adolygiad o bolisïau ar draws awdurdodau Gogledd Cymru. | Canllawiau wedi’u cynhyrchu ar gyfer e.e. Diogelu, Y Gymraeg ac ati. |